
For economic and social change
Creu newid economaidd a chymdeithasol

# Cod Ymddygiad y Bwrdd

Mai 2022

Awduron: Gweithgor y Bwrdd



# Cynnwys


1. Diben

2. Hyd a lled

3. Egwyddorion Cyffredinol

4. Cyfrinachedd

5. Ymddygiad yn gyhoeddus ac ar gyfryngau cymdeithasol

6. Gwrthdaro buddiannau

7. Gwasanaethu ar Fwrdd sefydliad arall

8. Cael cyngor annibynnol

9. Sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus

10. Cynnal y Cod

11. Adolygu

| Rhif y Fersiwn | Statws | Rheswm | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Drafft | Drafft cychwynnol gan y Swyddog Llywodraethu | Rhagfyr 2017 |
| 1.1 | Drafft | Gweithgor y Bwrdd | Ionawr 2018 |
| 1.2 | Wedi'i gymeradwyo | Ymgorffori sylwadau gan y Bwrdd | 26 Ionawr 2018 |
| 1.3 | Wedi'i gymeradwyo | Ymgorffori diwygiadau | Ebrill 2020 |
| 1.4 | Drafft | Diwygiadau i gynnwys ymddygiad cyhoeddus a defnyddio cyfryngau cymdeithasol | Awst 2020 |
| 1.5 | Wedi'i gymeradwyo | Ymgorffori diwygiadau | Medi 2020 |
| 1.6 | Wedi'i gymeradwyo | Diwygiadau yn cynnwys paragraff Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn adran 3 | Tachwedd 2020 |
| 2.0 | Wedi'i gymeradwyo | Wedi'i adolygu a'i ailfrandio | Mai 2022 |

## 1.0 Datganiad o Ddiben

Mae'r Cod Ymddygiad hwn (y "Cod") yn amlinellu'r safonau ymddygiad personol sy'n ofynnol gan Gyfarwyddwyr Cwmpas.

## 2.0 Hyd a lled

Mae telerau'r cod yn berthnasol i holl Gyfarwyddwyr Cwmpas. Gofynnir i ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hethol yn gyfarwyddwr gadarnhau eu bod wedi'i ddarllen a'i ddeall. Gofynnir i bob Cyfarwyddwr gadarnhau ei fwriad i gydymffurfio â'r cod.

## 3.0 Egwyddorion Cyffredinol

Mae Cwmpas wedi'i sefydlu i fod yn fusnes cydweithredol llwyddiannus; i ddatblygu busnesau cynaliadwy a chymunedau cynhwysol cryf trwy gydweithio a bod yn arweinydd ar gyfer meddwl a gweithredu cydweithredol.

Disgwylir i gyfarwyddwyr ymddwyn yn unol â pholisïau, gwerthoedd ac amcanion Cwmpas ac i ddangos arweinyddiaeth wrth gynnal perthnasoedd effeithiol a pharchus gyda'i gilydd, gyda staff a chyda holl randdeiliaid Cwmpas.

Mae Cwmpas wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'i holl bolisïau, arferion, a gweithgareddau. Dylai aelodau'r Bwrdd bob amser weithredu yn unol â pholisi Cwmpas ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a dylent ei ddilyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn digwydd o ganlyniad i'w gweithredoedd neu anweithredoedd. Dylai aelodau'r Bwrdd gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithredol a, lle y bo angen, herio ymddygiad gwahaniaethol.

Disgwylir i gyfarwyddwyr ddilyn 7 egwyddor ganlynol **Nolan**.

**1. Anhunanoldeb** – gweithredu er budd Cwmpas yn unig

**2. Uniondeb** – datgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd sy'n gwrthdaro

**3. Gwrthrychedd** – gweithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd diduedd

**4. Atebolrwydd** – bod yn atebol am benderfyniadau a chamau gweithredu

**5. Bod yn Agored** – gweithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw

**6. Gonestrwydd** – dweud y gwir

**7. Arweinyddiaeth** – hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn yn weithredol a herio ymddygiad gwael lle mae'n digwydd.

## 4.0 Cyfrinachedd

Bydd cyfarwyddwyr yn trin yr holl wybodaeth a gânt yn rhinwedd eu swydd fel cyfarwyddwyr, a'r holl drafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd neu o fewn pwyllgorau'r Bwrdd, yn gyfrinachol.

Bydd cyfarwyddwyr yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfrinachedd canlynol:

- Ni fyddant yn datgelu unrhyw wybodaeth y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd oni bai ei bod eisoes yn gyhoeddus, neu fod y Bwrdd yn eu hawdurdodi'n benodol i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am fusnes Cwmpas, trafodaethau'r Bwrdd wrth wneud penderfyniadau, a sut roedd Cyfarwyddwyr unigol wedi pleidleisio ar faterion.
- Ni fyddant yn defnyddio unrhyw wybodaeth er budd personol.
- Ni fyddant yn trosglwyddo gwybodaeth i unrhyw gynrychiolydd o'r wasg neu'r cyfryngau a byddant yn cyfeirio unrhyw ymholiadau gan y wasg neu'r cyfryngau at uwch dîm arweinyddiaeth Cwmpas.

## 5.0 Ymddygiad yn gyhoeddus ac ar gyfryngau cymdeithasol

Disgwylir i gyfarwyddwyr ymddwyn yn unol â gwerthoedd Cwmpas. Wrth siarad yn gyhoeddus neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, ni ddylai cyfarwyddwyr wneud unrhyw beth a allai niweidio enw da Cwmpas neu ddwyn anfri arno. Y Prif Swyddog Gweithredol yw'r prif lefarydd ar ran Cwmpas. Dylai cyfarwyddwyr gyfeirio'r holl ymholiadau gan y cyfryngau at y Prif Weithredwr, heblaw am y rhai hynny sy'n ymwneud â'r Bwrdd a'r ffordd o'i lywodraethu, y dylid eu cyfeirio at y Cadeirydd.

## 6.0 Gwrthdaro buddiannau

Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr ddilyn polisi Cwmpas ynglŷn â Gwrthdaro Buddiannau ac osgoi unrhyw sefyllfa a allai arwain at wrthdaro buddiannau posibl.

Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd gadw cofrestr o fuddiannau cyfarwyddwyr sydd ar gael i'w harchwilio gan aelodau.

7.0 Gwasanaethu ar Fwrdd sefydliad arall

Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr gofrestru unrhyw fuddiannau mewn sefydliadau eraill bob blwyddyn.

Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr sy'n gwasanaethu ar Fwrdd unrhyw sefydliad arall drin eu rolau fel cyfarwyddwr Cwmpas a chyfarwyddwr unrhyw sefydliad o'r fath ar wahân.

Mae hyn yn golygu:

- Bod rhaid iddynt gynnal cyfrinachedd mewn perthynas â gwybodaeth a gânt yn rhinwedd un swydd, a pheidio â datgelu unrhyw wybodaeth o'r fath yn rhinwedd eu swydd arall oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi'n benodol i wneud hynny.

- Wrth wneud penderfyniadau fel cyfarwyddwr Cwmpas, mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau o'r fath am resymau y maen nhw'n credu sydd er pennaf les Cwmpas, ac wrth wneud penderfyniadau fel cyfarwyddwr sefydliad arall, mae'n rhaid iddynt eu gwneud am resymau y maen nhw'n credu sydd er pennaf les y sefydliad hwnnw.

8.0 Cael cyngor annibynnol

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gyfrifol am gynnal busnes Cwmpas o ddydd i ddydd. Pan fydd mwyafrif y cyfarwyddwyr o'r farn y byddai cyngor annibynnol yn fuddiol ac yn angenrheidiol, mae'r Bwrdd yn gallu cael y cyfryw gyngor, ar yr amod bod y Bwrdd yn cytuno bod cost y cyngor hwnnw'n rhesymol ac yn gymesur yn yr amgylchiadau.

9.0 Sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr newydd gwblhau'r rhaglen sefydlu ffurfiol a ddatblygwyd gan y Bwrdd i sicrhau y gallant fod mor effeithiol â phosibl, mor gyflym â phosibl, yn eu rôl newydd.

Dylai cyfarwyddwyr sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau. Nid yw'n ddigonol dibynnu ar wybodaeth a phrofiad presennol. Er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o anghenion sy'n newid, a rhwymedigaethau cyfreithiol ac ariannol sy'n newid, mae angen i gyfarwyddwyr:

- Amlygu eu hanghenion hyfforddiant a datblygiad eu hunain a gofyn am ymyriadau priodol i fynd i'r afael â'r rhain

- Cymryd rhan ym mhroses arfarnu'r Bwrdd – ar y cyd ac yn unigol pan fydd angen
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol priodol yn barhaus.

## 10.0 Cynnal y Cod

Mae'r holl gyfarwyddwyr yn derbyn bod rhaid iddynt gydymffurfio â'r Cod hwn os yw'r Bwrdd am weithredu a chyflawni ei rôl yn briodol ac yn effeithlon. Os bydd unrhyw gyfarwyddwr yn methu â gwneud hynny, bydd y Cadeirydd yn datrys y mater trwy gyfeirio at ofynion Rheolau Cwmpas, ac unrhyw rai o bolisïau, gweithdrefnau, a gwerthoedd priodol Cwmpas.

## 11.0 Adolygu

Bydd y Bwrdd yn adolygu'r Cod Ymddygiad hwn bob dwy flynedd, neu'n gynharach os bydd newidiadau deddfwriaethol perthnasol.

Cynhelir yr adolygiad nesaf ym mis Ebrill 2024.